Dogfen Reoleiddio

POLISÏAU A GWEITHDREFNAU RHEOLEIDDIO

Polisi Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol a Chymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig

Ebrill 2018

Cymeradwywyd fersiwn (2) o'r Polisi Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol ar 8 Tachwedd 2016. Cymeradwywyd fersiwn (1) o'r Polisi Cymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig ar 22 Gorffennaf 2016 gan Fwrdd Cymwysterau Cymru. Cymeradwywyd y fersiwn ddiwygiedig hon ar 4 Ebrill 2018 gan Grŵp Polisi Cymwysterau Cymru.

Mae adran 47(1)(b) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (y "Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru gyhoeddi datganiad o'i bolisi mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau o dan Ran 4 o'r Ddeddf, sy'n cynnwys darpariaethau ynghylch cymwysterau blaenoriaethol[1] a chymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig[2]. Bydd Cymwysterau Cymru yn adolygu ei ddatganiadau polisi a baratowyd o dan adran 47 o'r Ddeddf, ac os bydd o'r farn ei bod yn briodol, yn dilyn adolygiad, bydd yn paratoi datganiadau diwygiedig.[3]

Bydd Cymwysterau Cymru yn adolygu'r ddogfen hon bob tair blynedd. Gallai adolygiad o'r fath ystyried effeithiolrwydd y polisi ac a yw'n parhau i fod yn gymwys. Croesewir adborth ar y polisi hwn ar unrhyw adeg. Anfonwch eich sylwadau i polisi@cymwysteraucymru.org.

[1] Adran 47 (1)(b) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015
[2] Adran 47 (1)(b) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015
[3] Adran 47 (4) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.

Cynnwys

Cefndir a Chyd-destun 2
Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol 3
Cynnwys cymwysterau ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol 4
Cymeradwyo'r cymwysterau ar y Rhestr 5
Cymeradwyo cymwysterau nad ydynt ar y Rhestr 5
Cymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig 6
Comisiynu Cymhwyster Blaenoriaethol Cyfyngedig newydd 9
Dethol Cymhwyster Blaenoriaethol Cyfyngedig 10
Trefniadau trosiannol ar gyfer cymwysterau etifeddol 11
Dirymu neu amrywio cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig 12

Cefndir a Chyd-destun

Bydd y polisi hwn o ddiddordeb i gyrff dyfarnu, pawb sy'n defnyddio cymwysterau yng Nghymru a Gweinidogion Cymru. Mae'n egluro sut y byddwn yn arfer ein swyddogaethau mewn perthynas â chymeradwyo a chyfyngu ar gymwysterau.

O dan adran 34 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 ("y Ddeddf"), ni all ysgolion, sefydliadau na chyflogwyr yng Nghymru gynnig cwrs a ariennir yn gyhoeddus i ddysgwyr o dan 19 oed sy'n arwain at gymhwyster oni fydd wedi'i gymeradwyo neu'i ddynodi (oni fydd Gweinidogion Cymru wedi caniatáu eithriad).

Bydd angen i gymwysterau cymeradwy fodloni meini prawf cadarn sy'n sicrhau eu bod wedi'u dylunio i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru. Dim ond gyda'r rhif cymeradwyo a nodwyd yng Nghymru y gellir eu dyfarnu. Darperir cymwysterau dynodedig gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig, ond nid oes rhaid iddynt fod yn unigryw i Gymru o reidrwydd, ac maent fel arfer ar gael i ddysgwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon hefyd.

Gellir cyfyngu ar gymwysterau cymeradwy er mwyn osgoi anghysondebau rhwng ffurfiau gwahanol ar yr un cymhwyster ac er mwyn ein galluogi i ddewis rhwng cyrff dyfarnu gwahanol neu rhwng ffurfiau gwahanol ar gymwysterau. Gelwir y rhain yn Gymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig.

Mae Adran 13 (Dyletswydd i lunio rhestr o gymwysterau blaenoriaethol) yn amlinellu dyletswydd Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru i lunio Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol ar y cyd.

Gellir cynnwys cymhwyster ar y Rhestr pan fydd "*Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod sicrhau a chynnal hyder y cyhoedd yn y cymhwyster yn flaenoriaeth i Cymwysterau Cymru, oherwydd arwyddocâd y cymhwyster gan roi sylw i anghenion dysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru*"[4].

Nod y polisi hwn yw egluro'r canlynol:

- y defnydd a wneir o'r Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol wrth ystyried cymwysterau i'w cymeradwyo;
- y ffordd y caiff y Rhestr ei llunio a'i chynnal;
- y rhesymau dros gyfyngu ar gymwysterau blaenoriaethol;
- y broses a ddefnyddir i gyfyngu ar gymwysterau blaenoriaethol.

Nid yw'r polisi hwn yn ymgorffori naill ai'r Rhestr na'r meini prawf a ddefnyddir i gymeradwyo'r cymwysterau.
Mae'r Rhestr i'w gweld yma. Mae'r meini prawf cymeradwyo i'w gweld yma.

[4] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/contents/enacted/welsh

Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol

1. Mae'r Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol ("y Rhestr") yn ein galluogi i gymeradwyo cymwysterau mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio, sy'n strwythuredig ac sydd wedi'i threfnu. Bydd hefyd yn ein galluogi i sicrhau bod adnoddau cyhoeddus yn canolbwyntio yn y ffordd fwyaf effeithiol ar y cymwysterau hynny sydd fwyaf arwyddocaol, tra hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd i ni ystyried p'un a ddylid cymeradwyo cymhwyster nad yw'n flaenoriaeth ai peidio. Ni fwriedir iddi nodi pwysigrwydd perthnasol un cymhwyster neu fath o gymhwyster o'i gymharu ag un arall.

2. Gall cymhwyster gael ei gynnwys ar y Rhestr pan fydd Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod sicrhau a chynnal hyder y cyhoedd yn y cymhwyster yn flaenoriaeth, gan fod arwyddocâd y cymhwyster yn gysylltiedig ag anghenion rhesymol dysgwyr a/neu gyflogwyr yng Nghymru. Byddwn ninnau a Llywodraeth Cymru yn cytuno ar y protocol ar gyfer datblygu'r Rhestr a'i hadolygu'n barhaus.

3. Dim ond os bydd cymhwyster ar y Rhestr, neu os yw'n gymwys i'r amgylchiadau a ddisgrifir yn adrannau 16-20 o'r polisi hwn, y byddwn yn ystyried ei gymeradwyo.

4. Gallai'r Rhestr gynnwys cymwysterau unigol neu ddisgrifiadau o gymwysterau. Mae wedi'i rhannu'n dair prif adran:

    a) Cymwysterau gyda chyfnod cymeradwyo blaenoriaethol cyfredol. Mae ystyried cymeradwyo'r cymwysterau hyn yn flaenoriaeth i ni, fel yr amlinellir ym mharagraff 6 isod;
    b) Cymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig. Caiff hon ei rhannu'n ddwy ran. Mae Rhan 1 yn ymwneud â'r cymwysterau hynny lle mae Cymwysterau Cymru yn bwriadu cyfyngu. Caiff sylwadau mewn ymateb i'r hysbysiad i gyfyngu eu hystyried cyn y caiff unrhyw benderfyniad i gyfyngu ei gyhoeddi. Caiff penderfyniadau i gyfyngu eu dangos yn Rhan 2.
    c) Cymwysterau anghyfyngedig gyda chyfnodau cymeradwyo blaenoriaethol sydd wedi dod i ben.

Cynnwys cymwysterau ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol

5. Mae Adran 13 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru lunio Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol ar y cyd. Mae'n rhaid cyhoeddi'r Rhestr.

6. Wrth benderfynu pa gymwysterau i'w cynnwys ar y Rhestr, byddwn yn ystyried ein prif nodau (fel y'u nodir yn adran 3 o'r Ddeddf) o sicrhau bod cymwysterau a system gymwysterau Cymru yn effeithiol o ran diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru a hybu hyder y cyhoedd yn y cymwysterau a system gymwysterau Cymru.

7. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gallem ystyried cynnwys cymhwyster neu ddisgrifiad o gymhwyster ar y Rhestr. Nid yw'r enghreifftiau hyn yn gynhwysfawr:
    a) nid ydym yn ystyried bod rhai cymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru ar hyn o bryd yn effeithiol, naill ai am nad ydynt yn adlewyrchu gofyniad sy'n benodol i ddysgwyr yng Nghymru neu am nad ydynt yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gael swydd;
    b) mae'r newidiadau arfaethedig yn golygu nad yw'r cymwysterau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn bodloni gofynion o ran y cwricwlwm neu sgiliau;
    c) mae bwlch wedi'i nodi yn sgiliau gweithlu mewn sector cyflogaeth sy'n cyflogi nifer fawr o bobl neu sy'n bwysig i economi Cymru;
    d) mae bwlch wedi'i nodi mewn llwybr dilyniant sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer dysgwyr yng Nghymru;
    e) yr angen i sicrhau bod cymwysterau cyfrwng Cymraeg ar gael.

8. Caiff y Rhestr ei chyhoeddi gan Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru. Caiff cyrff dyfarnu eu hysbysu pan gaiff ei gyhoeddi ac am ddiweddariadau dilynol.

9. Byddwn hefyd yn mynd ati i nodi cymwysterau a allai gael eu cynnwys ar y Rhestr yn ddiweddarach ar sail "Rhagolwg". Bydd y Rhagolwg yn ein galluogi i ddatblygu meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymwysterau hyn yn gynnar, a gallai roi gwybod i gyrff dyfarnu am flaenoriaethau tebygol ar gyfer y dyfodol.

10. Byddwn yn cydweithio â Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r Rhagolwg a chaiff Gweinidogion Cymru eu gwahodd i roi eu barn ar gymwysterau y dylid eu cynnwys yn y Rhagolwg. Caiff y Rhagolwg ei gyhoeddi gyda'r Rhestr ar ein gwefan yn dilyn cytundeb gan y naill ochr a'r llall.

Cymeradwyo'r cymwysterau ar y Rhestr

11. Yn gyffredinol, dim ond cymwysterau sydd â meini prawf cymeradwyo cyhoeddedig a gaiff eu hychwanegu at y Rhestr. Yn achos cymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig, gallwn gyhoeddi penderfyniad i gyfyngu ar y Rhestr cyn cyhoeddi meini prawf cymeradwyo.

12. Byddwn yn datblygu meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymwysterau i'w cynnwys ar y Rhestr mewn cydweithrediad agos ag arbenigwyr pwnc a rhanddeiliaid lle bo hynny'n briodol.

13. Caiff meini prawf cymeradwyo a'r rheolau ar gyfer cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo eu cyhoeddi. Gall cymwysterau a gafodd eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig gael eu cymeradwyo gennym ni. Caiff cymwysterau a gymeradwywyd eu nodi ar gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW).

14. Ar ddiwedd cyfnod cymeradwyo blaenoriaethol pob cymhwyster ar y Rhestr caiff pob cymhwyster o'r fath ei symud i'r adran 'Cymwysterau gyda chyfnodau cymeradwyo blaenoriaethol sydd wedi dod i ben'. Gall cyrff dyfarnu barhau i gyflwyno ceisiadau i gymeradwyo cymwysterau sydd wedi'u cynnwys yn yr adran 'Cymwysterau gyda chyfnodau cymeradwyo blaenoriaethol sydd wedi dod i ben' yn y Rhestr. Byddwn yn rhoi amserlen i gyrff dyfarnu wrth gyflwyno ceisiadau i'w cymeradwyo.

15. Gellir cynnwys cymwysterau a gaiff eu cyfyngu yn adran 'Cymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig' y Rhestr cyn cyhoeddi'r meini prawf cymeradwyo.

Cymeradwyo cymwysterau nad ydynt ar y Rhestr

16. Gall Cymwysterau Cymru hefyd ystyried cymeradwyo cymwysterau nad ydynt ar y Rhestr.

17. Gall Cymwysterau Cymru ystyried cymeradwyo cymhwyster nad yw ar y Rhestr os oes meini prawf cymeradwyo cyhoeddedig. Fodd bynnag, bydd Cymwysterau Cymru yn blaenoriaethu'r gwaith o gymeradwyo cymwysterau sydd ar y Rhestr dros gymeradwyo cymwysterau nad ydynt ar y Rhestr.

18. Gall amgylchiadau godi lle byddwn o'r farn bod angen ategu ein prif nodau drwy gyhoeddi meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymwysterau nad ydynt ar y Rhestr.

19. Byddwn yn rhoi gwybod i gyrff dyfarnu os byddwn yn cyhoeddi meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymhwyster nad yw ar y Rhestr.

20. Dim ond os caiff ei gyflwyno gan gorff dyfarnu cydnabyddedig priodol ac os yw'n bodloni meini prawf cymeradwyo cyhoeddedig y caiff cymhwyster nad yw ar y Rhestr ei gymeradwyo.

Cynnal y Rhestr

21. Caiff y Rhestr ei hadolygu'n rheolaidd a'i diweddaru, lle y bo hynny'n briodol a gyda chytundeb Gweinidogion Cymru, pryd bynnag y bydd Cymwysterau Cymru yn nodi bod cymhwyster yn flaenoriaeth i Cymwysterau Cymru a bod meini prawf cymeradwyo newydd ar waith. Mae cyhoeddi meini prawf cymeradwyo newydd yn debygol o arwain at newidiadau i'r Rhestr.

22. Wrth bennu'r cyfnod cymeradwyo blaenoriaethol, bydd Cymwysterau Cymru yn ystyried yr amser sydd ei angen er mwyn galluogi cyrff i gyflwyno'r cymhwyster yn effeithiol erbyn y dyddiad arfaethedig ar gyfer ei addysgu am y tro cyntaf.

23. Caiff cyrff dyfarnu eu hysbysu y daw'r broses o ddynodi cymwysterau sy'n debyg i'r rheini sydd ar y Rhestr i ben ar ddyddiad penodol, er mwyn cyd-fynd ag argaeledd cymwysterau newydd eu cymeradwyo.

24. Pan gaiff cymwysterau eu hychwanegu at y Rhestr, bydd Cymwysterau Cymru yn hysbysu cyrff dyfarnu am amseru a hyd y cyfnod cymeradwyo blaenoriaethol.

Cymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig

25. Mae adran 14 o'r Ddeddf yn caniatáu i ni gyfyngu ar gymhwyster sydd ar y Rhestr. Gallwn ystyried a ddylid cyfyngu ar gymhwyster ar y Rhestr. Bydd hyn yn cyfyngu ar nifer y ffurfiau (neu 'fersiynau') gwahanol ar gymhwyster y gellir eu cymeradwyo ar unrhyw adeg.

26. Gellir cyfyngu ar gymwysterau blaenoriaethol os bydd Cymwysterau Cymru yn fodlon ei bod yn ddymunol gwneud hynny, gan ystyried y prif nodau ac amcanion sef:
    - osgoi anghysondeb rhwng ffurfiau gwahanol ar yr un cymhwyster (pa un ai drwy gyfeirio at lefel y cyrhaeddiad a ddangosir drwy ffurfiau gwahanol ar yr un cymhwyster, neu fel arall); a
    - galluogi Cymwysterau Cymru i arfer dewis rhwng cyrff dyfarnu gwahanol neu ffurfiau gwahanol ar gymhwyster fel yr amlinellir o dan adran 14(4) o'r Ddeddf.

27. Wrth benderfynu pa gymwysterau y dylid cyfyngu arnynt, byddwn yn ystyried ein prif nodau, sef sicrhau bod cymwysterau a system gymwysterau Cymru yn

effeithiol o ran diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru a hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

28. Gallwn adnabod cymwysterau y dylid eu cyfyngu o bosibl drwy amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys adolygiadau sector a thematig, ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith ymchwil i'r farchnad.

29. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gallem ystyried cyfyngu ar gymhwyster blaenoriaethol. Nid yw'r enghreifftiau hyn yn gynhwysfawr:
    - lle mae angen cynnwys penodol o ran cymwysterau yng Nghymru oherwydd gofynion cwricwlaidd neu bolisi datganoledig;
    - lle mae angen trefniadau asesu penodol yng Nghymru oherwydd gofynion cwricwlaidd neu bolisi datganoledig;
    - lle byddai cyfyngiad yn cefnogi'r hyfywedd economaidd i gyrff dyfarnu ddatblygu cymwysterau o'r fath i Gymru;
    - lle byddai cyfyngiad yn cefnogi argaeledd cymwysterau mewn meysydd sector a ystyrir yn flaenoriaeth;
    - lle byddwn yn nodi bod anghysondeb rhwng gwahanol ffurfiau presennol ar yr un cymhwyster yn sylweddol ac yn achosi problemau.

30. Byddwn yn ystyried p'un a oes angen cyfyngu ar gymhwyster ac i ba raddau y dylid cyfyngu ar y cymhwyster fesul achos. Bydd ystyriaeth o'r fath yn seiliedig ar amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth gan gynnwys adolygiadau o'r ddarpariaeth bresennol, adborth gan randdeiliaid, gwaith ymchwil i'r farchnad. Wrth ystyried p'un a ddylid datblygu cynnig i gyfyngu, byddwn yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael ac yn gwerthuso eu heffeithiolrwydd i gyflawni'r nodau a'r amcanion a amlinellir ym mharagraff 26.

31. Os byddwn yn cynnig cyfyngu ar gymhwyster, cyn gwneud hynny byddwn yn hysbysu pob corff cydnabyddedig, ac unrhyw bartïon eraill y byddwn o'r farn y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt fod â diddordeb yng nghanlyniad y cynnig. Gall 'partïon eraill' gynnwys y darparwyr dysgu sy'n cofrestru ymgeiswyr ar gyfer cymwysterau, megis ysgolion, Sefydliadau a Chorfforaethau Addysg Bellach, cyrff sector a darparwyr dysgu seiliedig ar waith.

32. Gall yr hysbysiad fod yn rhan o ymgynghoriad ehangach ac asesiad effaith rheoleiddiol. Bydd hefyd yn cynnwys pwnc y cyfyngiad arfaethedig, y rhesymeg dros y cyfyngiad arfaethedig, tystiolaeth ategol a gwybodaeth am y trefniadau sy'n gysylltiedig ag unrhyw gyfyngiad yr ydym yn ei ystyried.

33. Cyn rhoi cyfyngiad ar waith, byddwn yn ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig.

34. Pan fydd corff dyfarnu wedi gwrthwynebu'r cyfyngiad arfaethedig, ni fydd hyn yn rhagfarnu canlyniad unrhyw broses gomisiynu neu ddethol ddilynol. Lle y gall unrhyw gorff dyfarnu ddangos er boddhad rhesymol Cymwysterau Cymru fod perygl o ragfarnu, caiff hyn ei reoli drwy gamau priodol, er enghraifft, drwy sicrhau bod dyletswyddau i'r staff dan sylw yn cael eu gwahanu lle y bo'n briodol.

35. Byddwn yn cyhoeddi penderfyniad am gymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig fel sy'n ofynnol gan adran 14(5) o'r Ddeddf. Caiff y penderfyniad ei gyhoeddi drwy nodi ar y Rhestr y cymwysterau neu'r disgrifiadau o gymwysterau yr ydym yn bwriadu cyfyngu arnynt.

36. Bydd penderfyniad yn nodi uchafswm nifer y ffurfiau ar y cymhwyster a all gael eu cymeradwyo ar unrhyw un adeg a gall nodi a ydym yn bwriadu mabwysiadu'r llwybr comisiynu neu'r llwybr dethol mewn perthynas â'r cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig.

37. Os dilynir y llwybr cyntaf, a nodir yn adran 15 (Pŵer i wneud trefniadau i ddatblygu cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig) ac adran 16 (Cymeradwyo cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig a ddatblygir yn unol â threfniadau adran 15) o'r Ddeddf, byddwn yn dod i drefniant cytundebol gyda chyrff dyfarnu i ddatblygu ffurf newydd ar gymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig a gaiff ei gyflwyno wedyn i ni ei gymeradwyo. Rydym yn cyfeirio at y llwybr hwn fel y llwybr 'comisiynu'.

38. Os dilynir yr ail lwybr, a nodir yn adran 17 (Cymeradwyo cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig yn absenoldeb trefniadau adran 15), byddwn yn cymeradwyo un fersiwn neu fwy o gymhwyster o blith y rhai a gyflwynwyd i'w cymeradwyo. Rydym yn cyfeirio at y llwybr hwn fel y llwybr 'dethol'. Gall hyn gynnwys dethol cymwysterau sy'n bodoli eisoes o blith y rhai a gyflwynwyd wedyn i'w cymeradwyo gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig. Bydd y polisi hwn yn gymwys i'r ddau lwybr hyn oni nodir yn wahanol. P'un ai'r llwybr comisiynu neu'r llwybr dethol a ddefnyddir, bydd cyrff dyfarnu yn cael eu dewis drwy gystadleuaeth agored, deg a thryloyw.

39. Mae adran 23 (Cyfnod para'r gymeradwyaeth) o'r Ddeddf yn nodi y bydd Cymwysterau Cymru yn cymeradwyo'r cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig am gyfnod cyfyngedig a bennir wrth roi'r gymeradwyaeth. Rhagwelwn y byddai hyn fel arfer am gyfnod o hyd at 5 mlynedd.

40. O leiaf flwyddyn cyn dyddiad dod i ben cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig, byddwn yn adolygu amcanion y penderfyniad cychwynnol ac yn ystyried a ddylid cymhwyso cyfyngiad arall. Os cynigiwn y dylid cymhwyso

cyfyngiad arall byddwn yn dilyn y broses a amlinellir ym mharagraffau 30-39 uchod: bydd corff dyfarnu yn cael ei ddewis drwy gystadleuaeth agored, deg a thryloyw unwaith eto.

Comisiynu Cymhwyster Blaenoriaethol Cyfyngedig newydd

41. Mae adran 15 o'r Ddeddf yn darparu y cawn ymrwymo i drefniadau gyda chorff dyfarnu i ddatblygu ffurf newydd ar gymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig a bod yn rhaid iddo baratoi cynllun ynghylch gwneud trefniadau o'r fath. Rydym yn cyfeirio at hyn fel y llwybr 'comisiynu'.

42. Rhaid i ni baratoi a chyhoeddi cynllun ar gyfer comisiynu cymwysterau sy'n agored, yn deg ac yn dryloyw. Bydd y cynllun yn nodi'r weithdrefn gyffredinol y byddwn yn ei dilyn, a gellir ei ategu â dogfennaeth sy'n benodol i bob cyfyngiad posibl. Yn gyffredinol, lle mae Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016 yn gymwys i'r comisiwn, byddwn yn gweithredu yn unol â'r Rheoliadau hynny. Mewn achosion eraill, byddwn yn dilyn ein gweithdrefn ein hunain a fydd yn unol â'n polisi caffael.

43. Yn y naill achos neu'r llall, gwneir hyn drwy broses ymgeisio fesul cam, gan gymhwyso egwyddorion tryloywder, dim gwahaniaethu a thriniaeth gyfartal. Pan fydd y comisiwn i ddatblygu'r cymhwyster neu'r cymwysterau wedi ei ddyfarnu, byddwn yn goruchwylio gwaith y corff dyfarnu a gomisiynwyd yn fanwl wrth iddo ddatblygu'r cymhwyster.

44. Caiff y gwaith goruchwylio hwn ei gyflawni drwy reoli contract yn fanwl yn ogystal â bod yn rhan o benderfyniadau allweddol ynglŷn â chynnwys pwnc a methodoleg asesu.

45. Lle mae Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016 yn gymwys, caiff ymgeiswyr aflwyddiannus wneud cais i'r llys i herio dyfarniad y contract(au) os credant fod y Rheoliadau wedi cael eu torri. Nodir y broses a'r terfynau amser yn Rhan 5 o'r Rheoliadau.

46. Unwaith y bydd cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig a gomisiynwyd wedi'i ddatblygu gan gorff dyfarnu, rhaid ei gyflwyno i'w gymeradwyo. Byddwn yn adolygu'r cymhwyster yn erbyn y meini prawf cymeradwyo perthnasol yr ydym wedi'u cyhoeddi o dan Adran 20 (Meini prawf cymeradwyo) o'r Ddeddf. Os bydd y cymhwyster yn bodloni'r meini prawf cymeradwyo, caiff y cymhwyster ei gymeradwyo. Os na fydd yn bodloni'r meini prawf cymeradwyo, gofynnir i'r corff dyfarnu ddiwygio'r cymhwyster er mwyn bodloni'r meini prawf. Gallwn ddynodi terfyn amser ar gyfer gwneud diwygiadau o'r fath. Gall methu â bodloni'r meini prawf cymeradwyo a/neu

ymdrin â'r diwygiadau angenrheidiol o fewn y terfyn amser hwn arwain at derfynu'r comisiwn.

47. Dim ond cyrff dyfarnu a gomisiynwyd a gaiff gynnig y cymhwyster cyfyngedig, fel un "Cymeradwy", hyd nes y daw'r cyfnod cymeradwyo i ben (neu y caiff cymeradwyaeth ei hildio neu ei thynnu'n ôl). Bydd trefniadau trosiannol ar waith ar gyfer cymwysterau etifeddol er mwyn sicrhau na fydd dysgwyr sydd eisoes wedi dechrau cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau etifeddol o dan anfantais annheg.

48. Ni fyddwn yn dynodi unrhyw ffurf ar gymhwyster sy'n destun cyfyngiad neu gymhwyster sydd â'r un diben â chymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig neu ddiben tebyg, yn ein barn ni, yn enwedig lle y gellid dewis cymhwyster arall yn lle cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig.

Dethol Cymhwyster Blaenoriaethol Cyfyngedig

49. Mae adran 17 o'r Ddeddf yn nodi y gallwn gymeradwyo ffurf ar gymhwyster sy'n gymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig lle nad ydym yn bwriadu ymrwymo i drefniadau o dan adran 15. Rydym yn cyfeirio at hyn fel y llwybr 'dethol'.

50. Rhaid i ni baratoi a chyhoeddi cynllun ar gyfer dethol cymwysterau sy'n agored, yn deg ac yn dryloyw. Bydd y cynllun yn nodi'r weithdrefn gyffredinol y bydd Cymwysterau Cymru yn ei dilyn, a gellir ei ategu â dogfennau sy'n benodol i bob cyfyngiad posibl mewn perthynas â'r canlynol:
    - gwneud ceisiadau am gymeradwyaeth o dan adran 17;
    - sut y byddwn yn ystyried y ceisiadau hynny;
    - y cyfnod cymeradwyo blaenoriaethol a'r meini prawf cymeradwyo a dethol i'w defnyddio.

    Defnyddir meini prawf dethol i'n galluogi i ddewis rhwng y cymwysterau hynny sy'n bodloni'r meini prawf cymeradwyo.

51. Byddwn yn arfer ein swyddogaethau yn unol â'r cynllun a chan gymhwyso egwyddorion tryloywder, dim gwahaniaethu a thriniaeth gyfartal. Yn gyffredinol, lle mae Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016 yn gymwys, byddwn yn mynd ati yn unol â'r Rheoliadau hynny. Ym mhob achos arall, byddwn yn dilyn ein gweithdrefn ein hun. Bydd y broses yn ceisio caniatáu cyfnod cymeradwyo sy'n rhoi amser rhesymol i gyrff dyfarnu baratoi cais.

52. Caiff cyrff dyfarnu apelio yn erbyn y penderfyniad dethol drwy ein Polisi Apeliadau Rheoleiddio o fewn 20 diwrnod gwaith i hysbysiad o'r penderfyniad. Mewn achosion lle mae Rheoliadau Contractau Consesiwn

2016 yn gymwys, efallai y bydd gan gyrff dyfarnu rwymedïau o dan y Rheoliadau hynny hefyd.

53. Dim ond cyrff dyfarnu a ddetholwyd a gaiff gynnig y cymhwyster cyfyngedig, fel un "Cymeradwy", hyd nes y daw cyfnod y cyfyngiad i ben (neu y caiff cymeradwyaeth ei hildio neu ei thynnu'n ôl). Bydd trefniadau trosiannol ar waith ar gyfer cymwysterau etifeddol er mwyn sicrhau na fydd dysgwyr sydd eisoes wedi dechrau cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau etifeddol o dan anfantais annheg.

54. Ni fyddwn yn dynodi unrhyw ffurf ar gymhwyster sy'n destun cyfyngiad neu gymhwyster sydd â'r un diben â chymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig neu ddiben tebyg, yn ein barn ni, yn enwedig lle y gellid dewis cymhwyster arall yn lle cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig.

55. Caiff meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig, boed yn rhai sydd wedi'u comisiynu neu wedi'u dethol, eu datblygu gennym mewn cydweithrediad agos ag arbenigwyr pwnc a rhanddeiliaid. Gall y broses o ddatblygu meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig a gomisiynwyd hefyd ystyried materion sydd wedi cael eu trafod a'u datrys â'r corff dyfarnu a gomisiynwyd o bosibl wrth ddatblygu'r cymhwyster.

56. Caiff meini prawf cymeradwyo a'r rheolau ar gyfer cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo, boed yn rhai sydd wedi'u comisiynu neu wedi'u dethol, eu cyhoeddi.

Trefniadau trosiannol ar gyfer cymwysterau etifeddol

57. Gellir rhoi trefniadau trosiannol ar waith lle y caiff cymeradwyaeth ei thynnu'n ôl neu lle y caiff dynodiad ei ddirymu ar y sail bod y cymhwyster neu'r disgrifiad o'r cymhwyster dan sylw bellach yn un cyfyngedig.

58. Gwneir trefniadau o'r fath yn unol â'r gofynion a'r terfynau amser a amlinellir yn Adrannau 27 (*Tynnu cymeradwyaeth yn ôl*) a 32 (*Dirymu dynodiadau adran 29*) o'r Ddeddf a chan ystyried yr angen i osgoi rhagfarn i bersonau sy'n ceisio ennill y ffurf hon ar gymhwyster, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt wneud hynny. Fel y cyfryw, bydd trefniadau trosiannol yn galluogi dysgwyr cofrestredig i gwblhau eu cymhwyster a gallant olygu y bydd ffurfiau presennol ar y cymhwyster yn parhau ar ôl penderfynu ar gyfyngiad er mwyn galluogi dysgwyr i gwblhau eu cymhwyster. Bydd gan drefniadau o'r fath ddyddiad terfyn pendant ac ni fyddant ar gael i ddysgwyr newydd sy'n cofrestru o'r 1 Medi yn ystod y flwyddyn ar ôl gwneud y penderfyniad i

ddirymu.

Dirymu neu amrywio cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig

59. Cawn (yn unol â thelerau unrhyw gytundeb rhyngom ni a'r Corff Dyfarnu) ddirymu neu amrywio penderfyniad am gymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig lle, er enghraifft, y tynnwyd ein sylw at y ffaith bod amcanion y penderfyniad wedi newid neu nad ydynt yn cael eu bodloni. Mewn achosion o'r fath, byddwn, cyn cyhoeddi unrhyw benderfyniad i ddirymu neu amrywio, yn:
    - hysbysu pob corff cydnabyddedig, ac unrhyw bartïon eraill ein bod o'r farn y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt fod â diddordeb yn y penderfyniad arfaethedig, am y cynnig (gan gynnwys y rhesymeg dros y cynnig);
    - ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir iddo gan y personau hynny mewn perthynas â'r cynnig.

60. Caiff cyrff dyfarnu apelio yn erbyn penderfyniad i ddirymu neu amrywio drwy ein Polisi Apeliadau Rheoleiddiol o fewn 20 diwrnod gwaith i hysbysiad o'r penderfyniad.